Robert Williams, ‘Robert ap Gwilym Ddu’, 1766–1850
Bardd ac emynydd

Mae’r gwaed a redodd ar y groes
o oes i oes i’w gofio;
rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
i ddweud yn iawn amdano.

Robert ap Gwilym Ddu

Ganwyd Robert Williams ar 6 Rhagfyr 1766, yn unig blentyn i William Williams a’i wraig Jane o’r Betws Fawr, amaethdy ym mhlwyf Llanystumdwy, Eifionydd. Dyn ei filltir sgwâr ydoedd ac fe dreuliodd ei oes yn ei gynefin yn amaethu ac yn barddoni. Gan mai unig blentyn ffermwr cefnog ydoedd fe gafodd fagwraeth dda, ac yn ôl pob tebyg derbyniodd beth addysg elfennol mewn ysgol leol. Dywedid ei fod yn ddarllenwr mawr a ymddiddorai mewn llenyddiaeth Gymraeg, diwinyddiaeth, cerddoriaeth a hanes, a’i fod hefyd wedi dysgu Saesneg. Gelwid ef gan Dewi Wyn o Eifion yn ‘Hen Lanc y Betws’ oherwydd ei fod yn ddibriod.

Caniatâi hynny ryddid mawr iddo a daeth ei gartref yn gyrchfan Cymry diwylliedig yr ardal. Yn y cyfnod hwnnw yr oedd nythaid o feirdd galluog yng nghyffiniau Llanystumdwy, gan gynnwys Dafydd Ddu Eryri, Gutyn Peris, Dewi Wyn, Siôn Wyn o Eifion ac Eben Fardd. Syndod mawr i’w gyfeillion oedd iddo briodi pan oedd yn hanner cant oed â merch ifanc o Ddolgellau a ddaeth i weini ym Mhlas Hen gerllaw. Fe gawsant un ferch, sef Jane Elizabeth, ond loes calon i’w rhieni oedd ei marwolaeth o’r darfodedigaeth ym 1834 a hithau ond yn ddwy ar bymtheg oed. Un o alarnadau dwysaf yr iaith yw’r awdl a ganodd ei thad iddi.

Och! gur, pwy fesur, pa faint
Yw 'nghwyn mewn ing a henaint!
At bwy tro'f yn fy ngofid,
A chael lle i ochel llid?
Angeu arfog, miniog mawr,
Ar ei adfarch ergydfawr,
Wele yma carlamodd,
A'i rym ar egni a rodd;
Torodd i lawr, drwy fawr feth
Ein diddig, unig eneth.

Yr oedd yn gyfeillgar â beirdd eisteddfodol ei gyfnod a dysgodd lawer ganddynt. Meistrolodd y mesurau caeth ac ystyrid rhai o'i englynion yn gampweithiau. Dyma un enghraifft sy'n dwyn y teitl 'Yr Iawn':

Paham y gwneir cam â'r cymod – neu'r Iawn
A'i rinwedd dros bechod?
Dywedwch faint y Duwdod,
Yr un faint yw'r Iawn i fod.

Bu'n gyfaill ffyddlon i J.R. Jones, Ramoth, gan ei gynorthwyo i gyhoeddi llyfrau emynau. Ni chafodd ei fedyddio ac ni fu erioed yn aelod eglwysig, ond yr oedd ef a'i gyfaill o fardd, Dewi Wyn, yn addoli'n gyson yn y capel Bedyddwyr lleol a ddaethpwyd i'w adnabod fel 'Capel y Beirdd'.

Cofir am Robert ap Gwilym Ddu yn bennaf fel emynydd a ysbrydolwyd i ysgrifennu gan ei brofiadau ysbrydol. Ychydig cyn diwedd ei oes symudodd i fyw i Mynachdy Bach ac yno y bu farw ar 11 Gorffennaf 1850. Fe'i claddwyd ym mynwent Abererch, ger Pwllheli.